# CBAC Cymraeg UG Lefel 3



**Yn gryno**

Mae Cymraeg ail iaith yn gwrs Safon Uwch pleserus sydd wedi'i gynllunio i annog dysgwyr i astudio'r iaith hon gyda diddordeb, mwynhad a brwdfrydedd. Bydd astudio Cymraeg yn gwella’ch CV yn sylweddol ac yn eich gwneud chi’n fwy cyflogadwy.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych eisiau gwella eich rhagolygon cyflogadwyedd yng Nghymru

... Ydych eisiau ychwanegu iaith arall at eich sgiliau

...ydych astudio’r iaith hon i ychwanegu gwerth at unrhyw un o’ch llwybrau Safon Uwch

... Ydych eisiau gallu deall a siarad Cymraeg.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Ar ddechrau'r cwrs, byddwn yn ail-ymweld â'r elfennau sylfaenol a dysgu bob amser o'r ferf o'r cychwyn cyntaf er mwyn dileu camgymeriadau a all dynnu marciau ar Lefel Safon Uwch.

Mae amrywiaeth eang yn y cwrs, o astudio ffilmiau Cymraeg, hanes a diwylliant Cymru, barddoniaeth, a straeon byrion i gyfryngau cymdeithasol a'r iaith Gymraeg ym mywyd bob dydd.

Ar Lefel UG - byddwch yn astudio tri modiwl:

CA1 - arholiad llafar mewn grwp o dri, yn trafod ffilm Gymraeg, 'Patagonia' a ffilmiau a rhaglenni teledu eraill.
CA2 - gwaith cwrs sy'n seiliedig ar Gymry ddoe a heddiw sydd wedi gwneud effaith ar fywyd Cymreig a'r iaith Gymraeg.
CA3 - papur ysgrifenedig sy'n cynnwys cywiro camgymeriadau gramadegol cyffredin, newid paragraff byr o un amser o'r ferf i'r llall neu o'r person cyntaf i'r trydydd person, ysgrifennu llythyr Cymraeg i ymateb i hysbyseb swydd, gwerthfawrogi un o'r pum cerdd a astudir yn ystod y flwyddyn.

Ar lefel Safon Uwch - yr ail flwyddyn - bydd eich cwrs yn cynnwys tri modiwl arall:

CA4 - arholiad llafar mewn grwp o dri, yn trafod drama Gymraeg fodern a astudir yn y dosbarth yn ystod y flwyddyn.
CA5 - papur ysgrifenedig lle bydd ymgeiswyr yn trafod yr iaith Gymraeg a'i defnydd ym mywyd bob dydd - mewn gwleidyddiaeth, addysg, y gweithle a'r cyfryngau. Bydd hwn yn barhad o'r gwaith a wnaed ar gyfer y gwaith cwrs ar Lefel UG. Darllen erthygl Saesneg a llunio crynodeb ohoni yn Gymraeg.
CA6 - papur ysgrifenedig arall sy'n cynnwys ymarferion gramadegol sy'n seiliedig ar ymateb i e-bost neu gywiro gwaith rhywun arall; dadansoddi cynnwys ac arddull un o'r pedair stori fer a astudiwyd yn y dosbarth; trafod thema yn y stori sydd wedi'i chynnwys mewn gwaith eraill a astudiwyd dros y ddwy flynedd.

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Cymraeg Lefel UG
Cymraeg Safon Uwch

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael mynediad ar y cwrs, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Iaith Saesneg, Mathemateg/Rhifedd a Gradd C mewn Cymraeg Ail Iaith a all gynnwys

y cwrs llawn neu gwrs byr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Mae'r cwrs yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer astudiaeth bellach o'r iaith Gymraeg ar lefel gradd, gan ddatblygu sgiliau sy'n addas i'r gweithle ar yr un pryd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd myfyrwyr sydd wedi ennill cymhwyster cwrs byr TGAU mewn Cymraeg yn cael eu derbyn i wneud Cymraeg UG/Safon Uwch ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent ac ar Gampws Crosskeys.

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i gynnig cwricwlwm amrywiol a chyfoethog i'w ddysgwyr Safon Uwch ac UG ac mae'n awyddus i sicrhau bod dysgwyr ar draws Gwent yn gallu cyrchu pynciau sy'n hanesyddol wedi recriwtio niferoedd bach. Er mwyn sicrhau argaeledd, cynigir Sbaeneg a Ffrangeg ar Gampws Crosskeys a chynigir Cymraeg ar gampws Crosskeys a Pharth Dysgu Blaenau Gwent. Os yw eich dewis o bynciau yn golygu bod angen teithio rhwng campysau, cysylltwch â'n hadran derbyn myfyrwyr i gael mwy o wybodaeth.